

## **Cyngor Tref Aberteifi :: Aberteifi Cardigan Town Council**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd nos Fawrth, 1 Rhagfyr 2009 am 6.30yh yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Aberteifi.**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 1 December 2009 at 6.30pm at the Council Chamber, the Guildhall, Cardigan.

**Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors** Mark Cole (*yn y gadair/in the chair*), Mair Morris, Catrin Miles, Nicky Charlton-Lewis, Gwynfi Jenkins, David Grace, Wynne Evans, Shân Williams, Llwyd Edwards (7.20pm).

**Roedd dau swyddog y wasg yn bresennol.**

Two press officers were present.

### **1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.**

Croesawodd y Maer, y Cyng. Mark Cole, yr aelodau i'r cyfarfod. Datgelodd y newyddion bod Carwyn Jones wedi ei ethol yn arweinydd newydd y Blaid Lafur a Darpar Prif Weinidog y Cynulliad. Gofynnwyd i'r clerc anfon llongyfarchiadau'r cyngor i Mr Jones ac i'w wahodd i ddatliadau 2010 y dref. Dywedodd y Maer bod yr archfarchnad Sainsbury's wedi arwyddo i ddatblygiad Bath House; byddai hyn yn meddwl mwy o waith i'r ardal. Yn dilyn hyn, y gobaith oedd yn awr gweld Ymddiriedolaeth Iechyd Hywel Dda yn symud ymlaen gyda'u cynlluniau am ysbyty newydd tua diwedd 2010. Diolchwyd i'r holl aelodau am eu cefnogaeth i wasanaeth Sul y Cadoediad ar 8 Tachwedd, a hefyd i Ffair Aberteifi ar 10 Tachwedd pan wahoddwyd y cynghorwyr i ymuno â Mr Vernon Studt am luniaeth wedi'r agoriad swyddogol. Diolchodd Mr Studt i gyngor y dref am ei gefnogaeth dros y blynyddoedd. Diolchwyd hefyd i Mr Keith Ladd am gydlynu ynglŷn â'r agoriad.

Bu cynhyrchiad Opera Teifi o 'Calamity Jane' unwaith eto yn llwyddiant ysgubol gyda'r theatr yn llawn bron i bob perfformiad.

Ar ran y Cyng. John Adams-Lewis, cyflwynodd y Cyng. Catrin Miles longyfarchiadau i Gôr Pensiynwyr Aberteifi a'r Cylch ar ddathlu 25 mlynedd ei fodolaeth gyda chyngerdd arbennig yn ddiweddar.

Cyhoeddodd y Maer gyfeiriad e-bost newydd y cyngor:

[cyngor@trefaberteifi.co.uk](mailto:cyngor@trefaberteifi.co.uk).

Ceir ei osod ar 8 Tachwedd gan gwmni Telem@; bydd y clerc yn cysylltu gyda'r cynghorwyr perthnasol. Bydd cofrestru'r cyfeiriad newydd a'i gynnal a'i gadw am 12 mis yn £54.50+TAW. Bydd tâl ychwanegol o £15 y mis yn daladwy i Antur Teifi am gysylltiad we. Rhoddwyd caniatâd i'r clerc symud ymlaen â'r trefniadau. Codwyd mater llifogydd pen ucha Dôl y Dintir yn dilyn y tywydd anffafriol gan y Cyng. Mair Morris. Mae preswylwyr Felinban, Maesycoed a Chnweydintir yn

**ofidus y gwna'r dŵr eithafol danseilio gwadnau'r adeiladau. Os na weithredir ar unwaith bydd y dŵr yn siŵr o bery rhagor o bryder iddynt. Mae cyfarfod gyda Mr Steven Jones o gwmni Eatonfields gyda'r cynghorwyr Mair Morris a John Adams-Lewis wedi ei drefnu i drafod y mater. Cynigiodd y Cyng. Mair Morris ac eiliodd y Cyng. Catrin Miles bod y cyngor yn anfon llythyr at adran Gynllunio CSC ac i Ms Annette Birkett, adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith CSC yn tynnu sylw at y sefyllfa ddirywiol. Roedd pawb yn gytûn.**

**Soniwyd bod cyfraith newydd y llywodraeth yn atal i ddŵr llifogydd lifo i afonydd a nentydd: perthnasol iawn i amodau tywydd Aberteifi ar hyn o bryd.**

**Awgrymwyd y dylid cael rhif ffôn CSC am stoc bagiau tywod.**

1. The Chair's welcome and Personal Matters.

The Mayor, Cllr Mark Cole, welcomed all members to the meeting. He mentioned the breaking news that Carwyn Jones had been elected as the new leader of the Labour Party and the First Minister Elect of the Welsh Assembly Government. The clerk was requested to forward the council's congratulations and best wishes to Mr Jones and to invite him to the 2010 900 years' celebrations.

The Mayor mentioned that the food supermarket Sainsbury's had signed up to the Bath House development which meant that more local jobs would be created. It was hoped to see the Hywel Dda Health Trust moving on with the new hospital development towards the end of 2010. Members were thanked for their full support at the Remembrance Day Service held on 8 November, and also at Cardigan Fair on 10 November where councillors were kindly hosted by Mr Vernon Studt who reciprocated his gratitude for the support given by Cardigan Town Council. The local contact, Mr Keith Ladd, was also thanked for liaising the grand opening of the fair.

Opera Teifi had once again been a roaring success, 'Calamity Jane' being a sell-out on most nights.

Catrin Miles added that Cllr John Adams-Lewis wished to congratulate the Cardigan Pensioners' Choir on celebrating their 25 years in existence with a resounding concert recently.

The new council e-mail address was announced by the Mayor:

[cyngor@trefaberteifi.co.uk](mailto:cyngor@trefaberteifi.co.uk). The installation would take place on Tuesday, 8 December by Telem@; thereafter the clerk would e-mail all appropriate councillors. The registering of the new address and maintenance for 12 months would be £54.50 + VAT. An additional £15 per month would be payable to Antur Teifi for the web connection. Permission was given to the clerk to proceed with the process.

Cllr Mair Morris raised the issue of the flooding at the top end of the Dôl y Dintir development following the recent inclement weather conditions. Householders in the Felinban, Maesycoed and Cnwcydintir areas are very concerned that this excess water would undermine the footings of their houses. The flood water entering their gardens could very well enter some of the houses if immediate action was not taken to reduce this flow. A meeting with Mr Steven Jones of Eatonfields Development was arranged with Cllrs Mair Morris and John Adams-Lewis to discuss the course of action to remedy this situation. It was proposed by Cllr Mair Morris and seconded by Cllr Catrin Miles to forward a letter to the planning department of Ceredigion County Council (CCC) and Mrs Annette Birkett of the Highways, Property and Works department drawing their immediate attention to the worsening situation. All members were in favour.

It was mentioned that a new government ruling forbids the surge of storm water into

rivers and streams – this legislation seems most appropriate to Cardigan under the present weather conditions. It was suggested that the appropriate CCC telephone number for the supply of sandbags be obtained.

**2. Ymddiheuriadau: Cyng. Alan Wilson, Linda Grace, Ian Stoker, Melfydd George, John Adams-Lewis (yn mynychu Cyfarfod Ymgynghorol Cymunedol Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys yn Aberaeron)**

2. Apologies: Cllrs Alan Wilson, Linda Grace, Ian Stoker, Melfydd George, John Adams-Lewis (attending Dyfed-Powys Police Authority Community Consultative meeting at Aberaeron)

**3. Cyflwyniad gan Mrs Lee Jones, Cyngor Henoed Ceredigion. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Mrs Jones am ei habsenoldeb oherwydd materion brys.**

3. Presentation by Mrs Lee Jones, Ceredigion Age Concern.

An apology was received from Mrs Jones for her absence due to unforeseen circumstances.

**4. Trafodaeth gyda swyddogion yr heddlu.  
Nid oedd swyddog yr heddlu ar gael.**

4. Discussion with Cardigan Police Officers.  
No officer was available.

**5. (a) Cadarnhau Cofnodion mis Tachwedd (3/11/09).**

**Tud. 164, eitem 1: Gofynnodd y Cyng. Catrin Miles i'r clerwr aileirio'r frawddeg olaf: 'Gobeithiodd y byddai'r gwaith yn bwrw ymlaen mewn da bryd cyn holl ddiwyddiadau dathlu 900 mlwyddiant Aberteifi yn 2010 er mwyn hwyluso achlysuron pryd mae'r ffyrdd ar gau yn y dref.'**

**Gyda'r cywiriad uchod, derbyniwyd cofnodion mis Tachwedd gan y cyngor. Cynigiwyd gan y Cyng. Mair Morris ac eiliwyd gan y Cyng. Wynne Evans.**

**(b) Cadarnhau Cofnodion "Mewn Pwyllgor" (3/11/09). (I'w trafod mewn pwyllgor)**

5. (a) Confirmation of November minutes (3/11/09).

Page 164, item 1: Cllr Catrin Miles asked that the last paragraph of item 1 be reconstructed as follows: 'She hoped that the work would proceed before the 900 celebrations in 2010 to enable the road closure events to be held without undue traffic problems'.

With the above amendment in place, the November minutes were accepted by council. Proposed by Cllr Mair Morris and seconded by Cllr Wynne Evans.

(b) Confirmation of "In committee" minutes (3/11/09). (To be discussed in committee).

**6. Materion yn codi o'r Cofnodion**

**Tud. 167, eitem 5 – Cyngor Ieuenctid. Dywedodd y Maer, y Cyng. Mark Cole, ei fod wedi bod mewn cyfarfod gyda phedwar neu bum dosbarth o ddisgyblion Coleg Ceredigion i drafod y posibilrwydd o sefydlu Cyngor Ieuenctid. Dangosodd amryw ohonynt ddiddordeb yn y fenter. Gobeithir symud ymlaen gyda'r prosiect cyn y Nadolig neu yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Pwysleisiodd y Cyng. Wynne Evans mai ymgyrch i blant tref Aberteifi yn unig y dylai fod. Ni**

**chytunwyd â'r pwynt hwn. Ychwanegodd hefyd y dylid gwahodd swyddogion menter Sir Gâr i egluro'r fenter ac i gynghori cyngor y dref.**

**Diolchodd y Maer staff Coleg Ceredigion am eu croeso ar achlysur ymweliad y cynghorwyr â'r campws. Mynychodd saith cynghorwr ar y dydd ynghyd â'r clerc; roedd bwriad trefnu achlysur eto i gynghorwyr absennol ym mis Ionawr.**

**Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gydag adran y Teledu Cylch Cyfyng i drefnu ymweliad i'r pencadlys yn y flwyddyn newydd.**

**Tud. 169, eitem (i): Trafodwyd glanhau'r Senotaff. Penderfynwyd y dylid anfon llythyr i'r adran ac i'r cynghorwyr sir ddilyn y trywydd.**

**Tud. 172, eitem 11[4]: Yn dilyn y rhestr o gwestiynau a gyflwynwyd i arweinydd y cyngor sir, y Cyng. Keith Evans, ac i'r Prif Weithredwr, Ms Bronwen Morgan, yn y cyfarfod ymgynghorol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, disgwylir atebion ysgrifenedig mewn da bryd.**

**Tud. 171, eitem 11[14]: Ll.CC: nodyn atgoffa – Ymgynghoriad: Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 – canllawiau statudol: ymateb i'w ddychwelyd erbyn 15 Ionawr 2010.**

**Tud. 172, eitem 11[26]: Roedd y staff yng Ngholeg Ceredigion yn hapus i drafod a chynhyrchu cwpwrdd i arddangos pethau cofiadwy'r cyngor. Roedd cydweithrediad Mr Martin a Miss Monica Radley yn hollbwysig i unrhyw benderfyniad; dywedodd y Maer ei fod wedi trafod y mater gyda'r ddau a'u bod yn barod gyda'u caniatâd.**

**Tud 174, eitem 12: Roedd y cyngor yn dal i ddisgwyl cadarnhad oddi wrth Rachel Mills, swyddog Prosiect Trefi Taclus, ynglŷn â chyflenwi biniau plastig du. Cyflwynwyd dogfen Ymgynghoriad Cyngor Sir Ceredigion ar Reoli Cŵn gan y Cyng. David Grace. Wedi trafodaeth fer, cytunwyd i symud safle Gerddi Fictoria o gategori cwestiwn 2 (rhestr o'r parthau gwahardd cŵn) i gategori cwestiwn 3 (rhestr o'r ardaloedd hynny lle dylai cŵn gael eu cadw ar dennyn). Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. David Grace. Roedd pawb yn gytûn.**

**Tud. 175, eitem 14: Gwahoddwyd y cynghorwyr i gyfarfod trethi busnes a drefnwyd gan Siambr Fasnach Cyf. Aberteifi yng Ngwesty'r Llew Du nos Lun, 7 Rhagfyr.**

**Tud. 176, eitem 17(b): Derbyniwyd cadarnhad drwy ddwylo ysgrifennydd Pwyllgor Gefeillio Aberteifi/Brioude, y Cyng. Catrin Miles, i'r anabl ddefnyddio llwybr drwy gerddi Brioude i'r Bythynnod Gwyrdd. Y clerc i ysgrifennu at Ms Geraldine Delaney.**

6. **Matters arising from minutes.**

Page 167, item 5 – Youth Council. The Mayor, Cllr Mark Cole, reported that he had met with four or five classes at Coleg Ceredigion to discuss the possibility of forming a Youth Council. A number of children had expressed a positive interest. It was hoped to move on this before Christmas or early in the new year. Cllr Wynne Evans stressed that the council should consist of Cardigan town children only. This point was not agreed upon. He also mentioned that an invitation should be extended to officers of the Sir Gâr initiative for clarification and advice.

The Mayor thanked the staff at Coleg Ceredigion for their hospitality on the occasion of the councillors' visit to the campus. Seven members and the clerk attended; it was hoped to organise a similar event for absent members early in January.

The clerk was asked to contact the CCTV headquarters to arrange a visit in the new



8. Activities of the Mayor. A list was distributed to all members of the Mayor's social and civic programme which was attended during November. Dates for your diary:

03-12-09	PACT Meeting at 7pm (Children's Integrated Centre)
03-12-09	Cardigan/Brioude Twinning Christmas Dinner
08-12-09	Victorian Night
09/10-12-09	Primary School Christmas Concerts (Theatr Mwldan)
11-12-09	Cancer Research Carol Service (St Mary's Church)
14-12-09	RAFA Carol Service (Hen Gapel, Aberporth)
20-12-09	RNLI Carol Service (St Dogmaels Church)
26-12-09	Boxing Day Hunt at 12 noon (Guildhall)
31-12-09	2010 New Year's Eve Dinner (Guildhall)

### 9. Cynllunio

**Nid oedd ceisiadau cynllunio ddiwedd mis i'w trafod.**

9. Planning.

No end of month planning applications were to hand.

### ***Sylwadau wedi eu hanfon i GSC / Observations submitted to CCC: 17/11/09***

<b><i>Rhify Cais / Application No.</i></b>	<b><i>Cyfeiriad / Address</i></b>	<b><i>Sylwadau Comments</i></b>
A090748	9 Queens Terrace	<i>Newid defnydd o adeilad storïo i uned breswyl.</i> Change of use from storage building to residential unit.
		<i>Dim sylwadau.</i> No observations.
A090747	Pt. O.S. 8943 Llwynpïod Farm, Gwberr Road	<i>Codi tŷ newydd.</i> Erection of a dwelling
		<i>Dim sylwadau.</i> No observations.
A090754CD	<i>Ysgol Gymunedol Aberteifi.</i> Cardigan Primary School	Formation of new staff car parking facility in the existing school grounds including: providing 37 no. car parking spaces. Providing new access route to the new car park through the existing entrance of Pontycleifion. Cut and fill levelling of the adjacent grass sport pitch.
		<i>Croesawu a chefnogi.</i> Welcome and support.

***Penderfyniad y  
Swyddogion Cynllunio  
Action taken by  
Planning Officers***

<i>Rhify Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>		<i>Sylwadau / Comments</i>
A080347LB	Custom House, 45 St Mary Street	<i>Newid defnydd o ddefnydd masnach i le bwyta.</i> Change of use from retail to restaurant.	<i>Caniatáu.</i> Approved
A090636	43 Pendre	<i>Newid un fflat i ddau.</i> Conversion of 1 flat into 2 flats.	<i>Caniatáu.</i> Approved
A090561AV	Howden's Joinery, Pentood Industrial Estate	<i>Arddangos arwydd.</i> Display of signage	<i>Caniatáu.</i> Approved
A080595	Former Hope Chapel, Morgan Street	<i>Newid defnydd i eiddo manwerthu gyda chaffi a dwy uned breswyl uwchben.</i> Change of use to retail premises with café and two residential units above.	<i>Caniatáu.</i> Approved
A080687LB	Former Hope Chapel, Morgan Street	Conversion of former chapel and printing works building to use as retail outlet with café and 2 residential units over.	<i>Caniatáu.</i> Approved
A090568	The Ship Inn, Pendre	Internal and external alterations, removal of timber frontage and replacement roller shutter doors to frontage.	<i>Gwrthodwyd.</i> Refused.

## 10. Adroddiadau y Cynghorwyr Sir.

### (a) Y Cyng. Mark Cole:

(i) Dywedodd y Cyng. Cole bod y cytundeb i drosglwyddo cyfrifoldeb am dai cyngor Ceredigion i Dai Ceredigion wedi ei arwyddo am 6.30 o'r gloch y bore Mawrth yma. Bydd hyn yn meddwl gwell ariannu i wella'r gwasanaeth drwy'r sir gan fod y Cynulliad wedi addo adnoddau sylweddol i wella'r tai. Bydd pum tenant, pum cynghorydd sir a phum aelod annibynnol yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli.

(ii) Bydd cyfarfod ymgynghorol swyddogol gyda ChSC i drafod datblygiadau diweddaraf o'r Cynllun Datblygu Lleol yn y flwyddyn newydd.

(iii) Cynhelir cyfarfod cyllideb 2010-11 yn gynharach nag arfer gyda rhagolygon am gynnydd o 2.5% yn y dreth am y flwyddyn nesaf.

(iv) Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghorol addysg ysgolion uwchradd a cholegau yn ddiweddar gyda chanran uchel o lywodraethwyr Ysgol Uwchradd Aberteifi yn bresennol.

### (b) Yn ei absenoldeb, cyflwynwyd adroddiad y Cyng. John Adams-Lewis gan y Cyng. Catrin Miles:

(i) Ailadroddwyd adroddiad y Cyng. Mair Morris ynglŷn â mater y llifogydd yn deillio o ddatblygiad Dôl y Dintir.

**(ii) Goleuadau Maesglas: Bu peirianwyr Western Power yn gweithio drwy'r nos i ddatrys y broblem. Rhagwelwyd y cwblheir y gwaith yn fuan.**

**(c) Y Cyng. Catrin Miles:**

**(i) Lansiyd y Banc Bwyd yn ddiweddar a chasglwyd nwyddau tu allan i archfarchnad leol.**

**(ii) Roedd y Cyng. Miles wedi ymweld â chanolfan Llwyn yr Eos, Penparcau, lleoliad yr Ysgol Feithrin, Dechrau'n Deg a Chanolfan Gymunedol. Roedd yn gobeithio y byddai'r cyngor sir yn datblygu'r ganolfan ar safle Pentop cyn bo hir, ond roedd yna gymhlethdodau ynglŷn â chost yr adeiladu.**

**(iii) Disgwylir cyflwyno prosiect Addysg 14-19 yn fuan. Y gobaith oedd cadw'r campws yn y dref gan ei fod yn fenter i'r ysgolion ac i'r gymuned.**

**(iv) Tŷ Adnoddau Ridgeway: Y Cyng. Catrin Miles i fynd ar drywydd hwn.**

10. Reports from County Councillors.

(a) Cllr Mark Cole:

(i) Cllr Cole reported that the agreement to transfer responsibility for the Ceredigion County Council houses to Tai Ceredigion was made at 6.30am this Tuesday morning. This will hopefully mean more efficient funding for house improvements throughout the county as the Welsh Assembly had promised substantial resources to enable investment to improve the homes. The Management Board will consist of five tenants, five county councillors and five independent members.

(ii) There will be an official consultation meeting with CCC regarding the latest development of the LDP in the new year.

(iii) The CCC budget meeting for 2010-11 will be held earlier than usual with a forecast of a 2.5% increase in council tax for the ensuing year.

(iv) A Consultative Education meeting to discuss the future of secondary schools and colleges was held recently with a strong contingent of Ysgol Uwchradd Aberteifi governors present.

(b) In his absence, Cllr Catrin Miles presented Cllr John Adams-Lewis' report:

(i) Cllr John Adams-Lewis reiterated Cllr Mair Morris' report regarding the flooding from the Dôl y Dintir development.

(ii) The Maesglas lights: engineers from Western Power had been out all night to resolve the problem. The work was expected to be completed shortly.

**(c) Cllr Catrin Miles:**

(i) The Food Bank launch was held recently and a collection of goods was held outside a local supermarket.

(ii) Cllr Miles had visited the site of Llwyn yr Eos, Penparcau, which housed the Ysgol Feithrin, Flying Start and a Community Centre. She hoped that CCC would move on the Pentop centre soon but reported that complications had arisen regarding the cost of construction.

(iii) The 14-19 Education project was to be presented soon. It was hoped to keep the campus within the town as it was an initiative for both schools and community.

(iv) Ridgeway Resources House – Cllr Miles to follow this through.

**11. Biliau wedi eu talu.**

11. Bills paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Taledigion / Payee</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
1/12/09	Antur Teifi: Rhent/Rent of Office	A7	D/D	£238.33 (0.00)
28/10/09	Newsquest: Hysbysiad/Advert (Trip yr Henoed/Annual Outing)	A8	3174	£111.78 (14.58)
6/1/09	Amanda Painting: Adloniant/ Entertainment (Annual Outing)	B7	3175	£90.00 (0.00)
6/1/09	Trewern Arms (Trip yr Henoed/ Annual Outing)	B7	3176	£992.00 (122.39)
31/10/09	Photostatic	A16	3177	£44.15 (5.76)
8/11/09	Argraffwyr E. L. Jones Printers (Taflenni Sul y Cadoediad/ Remembrance Day leaflets)	A5	3178	£72.00 (0.00)
16/11/09	Trywydd: Cyfieithu/Translation (1/9/ 09)	A17	3179	£169.05 (22.05)
18/11/09	Trywydd: Cyfieithu/Translation (6/ 10/09)	A17	3179	£118.74 (15.49)
3/11/09	BNP Paribas: les y llungopiwr/ photocopier lease Anfoneb/Invoice 2865531 = 241.79 Credit Note = 144.54	A16	D/D	£97.25 (12.68)
4/11/09	M. & E. Pearce: darnau i'r man chwarae/playground parts	C4	3180	£9.47 (1.23)
6/11/09	Richards Bros: Trip yr Henoed/Annual Outing	B7	3181	£400.00 (0.00)
30/11/09	Bachan Deche/Handyperson	A18	3182	£257.50 (0.00)
6/11/09	SCL Internet Services: domain name renewal	C10	3183	£19.56 (2.54)
7/11/09	Jewsons: Deunydd y Bachan Deche/ Handyperson's materials	C6	3184	£12.88 (1.68)
10/11/09	D. E. Owen & Son: Torri'r borfa/ Grasscutting King George Vth	B3	3185	£1,222.36 (159.44)
30/11/09	L. W. Jones: Cyflog y Clerc/Clerk's (yn cynnwys ôl-daliad i Ebrill/ including back payment to April)	A3	3186	£676.14 (0.00)
23/11/09	Finch Square Cafe: Stampiau/Stamps	A6	3187	£37.80 (0.00)
13/11/09	Playsafety Ltd: ROSPA; Archwiliad/ Inspection	C4	3188	£188.60 (24.60)
26/11/09	BDO Stoy Hayward: Archwilydd/ Accountancy	A11	3189	£488.75 (63.75)

**Yn dilyn trafodaeth fer, cytunwyd talu anfonebau taith yr henoed o gategori B7. Cynigiwyd gan y Cyng. David Grace ac eiliwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins bod y biliau uchod i'w talu (gydag eithriad cyflog y clerc a oedd i'w drafod mewn pwyllgor). Roedd pawb yn gytûn.**

Following a short discussion, it was decided to pay all the invoices of the annual outing from category B7.

It was proposed by Cllr David Grace and seconded by Cllr Gwynfi Jenkins that the above bills (with the exception of the clerk's wage which is to be discussed in committee) be paid. All members were in favour.

**12. Gohebiaeth.**

12. Correspondence.

*Llythron i'w nodi / i'w darllen*

*Letters to be noted / read*

1	CSC: ymddiheuriad – Sul y Cadoediad	CCC: apologies – Remembrance Service
2	CSC: cadarnhau gwaith wedi ei wneud ar gwrbyn y Senotaff	CCC: confirmation of work completed at the Cenotaph entrance
3	CSC: Adroddiad Hydref y teledu cylch cyfyng	CCC: CCTV October report
4	CSC: Cyfyngiadau Traffig Dros Dro, 25/11/09, cylchfan Pentwd	CCC: Temporary Traffic Restriction, 25/11/09, Pentood roundabout
5	CSC: derbynneb trwydded Deddf Hapchwarae 2005	CCC: receipt of licence for Gambling Act 2005
6	CSC: diddymu llwybr troed 78/17 Hen Fferm y Castell	CCC: extinguishment of part of footpath, 78/17 Old Castle Farm
7	CSC: gwyro llwybr troed 78/17 Hen Fferm y Castell	CCC: diversion of footpath, 78/17 Old Castle Farm
8	CSC: cau ffordd dros dro, Heol y Santes Fair, 18/1/10-17/3/10	CCC: temporary road closure, St Mary Street, 18/1/10-17/3/10
9	CSC: Ymgynghori â'r Cynghorau Cymuned ynghylch Hawliau Tramwy a Mynediad Cyhoeddus, 14/4/09: ymatebion	CCC: Community Council Consultation, Public Rights of Way and Access, 14/4/09: responses
10	CSC: Cynnal digwyddiadau i Ymgynghori â'r Cyhoedd ynghylch Cynllun Rheoli Traethlin Bae Ceredigion ac Ynys Enlli a chyn belled â'r Gogarth	CCC: Cardigan Bay and Ynys Enlli to Great Orme Shoreline Management Plan (SMP) Public Consultation Events
11	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion: holiadur	Ceredigion Community Safety Partnership: questionnaire
12	LICC: Canllawiau ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer gwella Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru	Proposed Guidance for the Wales Programme for Improvement for the Fire and Rescue Authorities in Wales
13	Mrs Joan Evans, 17 Y Rhos: pryderon ynglŷn â goleuadau'r stryd	Mrs Joan Evans, 17 Y Rhos: concerns re. street lighting
14	Eglwys y Santes Fair: cais am gymorth ariannol	St Mary's Church: application for financial aid
15	3 <sup>rd</sup> Cardigan Sea Scout Group: cais am gymorth ariannol	3 <sup>rd</sup> Cardigan Sea Scout Group: application for financial aid
16	BNP Paribas: copi o'r cytundeb am lungopiwr a gwybodaeth ynglŷn â pholisi yswiriant	BNP Paribas: copy of lease agreement for photocopier and information re. insurance policy
17	Coleg Ceredigion: gwahoddiad i gyflwyniad anffurfiol	Coleg Ceredigion: invitation to informal presentation
18	Cyng. Wynne Evans: llythyr parthed clwyd y fynwent	Cllr Wynne Evans: letter re. cemetery gate
19	Heddlu Dyfed Powys: llythyr oddi wrth y Dirprwy Prif Gwnstabl	Dyfed Powys Police: letter from Assistant Chief Constable
20	Heddlu Dyfed Powys: llythyr cyflwyno oddi wrth yr Uwcharolygydd	Dyfed Powys Police: introductory letter from Divisional Superintendent
21	Nerys Evans AC: llythyr ymddiheuriad, Sul y Cadoediad	Nerys Evans AM: letter of apology, Remembrance Sunday
22	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru: Cynllun Gweithredu Blynnyddol 2010-11 a Chynllun Gwella 2009-10	Mid and West Wales Fire & Rescue Authority: Annual Action Plan 2010-11 and Improvement Plan 2009-10
23	NSPCC: cais am gymorth ariannol	NSPCC: application for financial aid

24	Cyngor Cymuned Llandudoch: gwahoddiad i'r Oedfa Goffadwriaeth	St Dogmaels Community council: invitation to Remembrance Service
25	Zurich: cadarnhau yswiriant goleuadau Nadolig	Zurich: confirmation of festive lights insurance cover
26	Lleng Brydeinig Ceredigion : llythyr o ddiolch am gefnogaeth Apêl y Pabi	Ceredigion Royal British Legion: letter of thanks for support of Poppy Appeal
27	Dŵr Cymru: terfynu cyflenwad dŵr y plwmp ger Ysgol Gymunedol Aberteifi	Welsh Water: disconnection of standpipe near Ysgol Gymunedol Aberteifi
28	LI.C.C.: Ymgynghoriad UAS	WAG: Consultation (UAS)
29	CSC: Y glannau yn ymyl Greenland Meadows	CCC: Verge alongside Greenland Meadows
30	CSC: Ymgynghoriad ynglŷn â thorri Coed Llety Teifi	CCC: Consultation re. removing two Irish yew trees from Llety Teifi
31	Heddlu Dyfed Powys: cyffordd Greenland Meadows	Dyfed Powys Police: Greenland Meadows junction
32	Heddlu Dyfed Powys: Cyfarfodydd Ymgynghorol Cymunedol Tachwedd/Rhagfyr	Dyfed Powys Police: Community Consultative Meetings November/December
33	Pwyllgor Gefeillio Brioude: Gwahoddiad i ginio Nadolig, 6/12/09, 12 am 12.30yp	Cardigan-Brioude Twinning: invitation to Christmas lunch, Cliff Hotel, 6/12/09, 12 for 12.30pm
34	Danwood Wales: Rhestr	Danwood Wales: Inventory
35	CSC: Trefniadau'r Praesept 2010-11	CCC: Precept Arrangements 2010-11
36	Eisteddfod Llangollen: cais am gymorth ariannol	Eisteddfod Llangollen: application for financial aid
37	SWALEC: cyfres o anfonebau ynglŷn â'r cyfrif	SWALEC: compilation of invoices/credit notes
38	ROSPA: Adroddiad o'r archwiliad	ROSPA: Report of inspection
39	Adroddiad y Bachan Deche	Handyperson's Report
40	BDO Stoy Hayward: Adroddiad Terfynol yr Archwilydd	BDO Stoy Hayward: Final Audit Report

**[11] Y Maer i gwblhau'r holiadur erbyn 1 Chwefror.**

[11] The Mayor to complete the questionnaire by 1 February.

**[13] Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiwyd gan y Cyng. David Grace ac eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards bod llythyr i'w ddanfon i Mrs Evans gyda manylion adran berthnasol CSC i dderbyn ei chwyn ynglŷn â diffodd y goleuadau. Derbyniwyd y cynnig. Penderfynwyd anfon llythyr at GSC yn mynegi pryder y cyngor bod goleuadau Cei y Tywysog Siarl ynghynn yn ystod y dydd.**

[13] Following a short discussion it was proposed by Cllr David Grace and seconded by Cllr Llwyd Edwards that a letter be sent to Mrs Evans informing her of the details of the appropriate CCC department to receive her complaint regarding the switching off of street lights. The proposal was carried. It was decided to forward a letter to CCC expressing the town council's concerns that the Prince Charles Quay lights were illuminated during the day.

**[18] Y Cyng. Catrin Miles i ddilyn hwn i fyny gydag adran berthnasol CSC.**

[18] Cllr Catrin Miles to pursue this matter with the appropriate CCC department.

**[20] Penderfynwyd anfon llythyr o longyfarchiadau i'r Arolygydd Simon Powell ar ei apwyntiad fel Comander i Geredigion ac i'w wahodd i gyfarfod nesaf y cyngor ym mis Ionawr.**

[20] It was decided to congratulate Superintendent Simon Powell on his appointment as Divisional Commander for Ceredigion and to invite him to the next council meeting in January.

**[26] Llongyfarchodd y Maer y gangen leol o'r Lleng Brydeinig ar lwyddiant apêl y Pabi pan gasglwyd dros £8,000.**

[26] The Mayor congratulated the local branch of the Royal British Legion on the success of the Poppy Day appeal which realised a sum exceeding £8,000.

**[27] Gofynnwyd i'r clercc gysylltu gyda Dŵr Cymru yn rhoi caniatâd iddynt ddatgysylltu'r plwmp ger y fynedfa i Ysgol Gymunedol Aberteifi ond i'w adael yno i'r dyfodol. Nid yw'r cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r plwmp nac am y dŵr a ddefnyddir.**

[27] The clerk was instructed to contact Welsh Water with the council's consent to disconnect the water supply to the standpipe but leaving it in situ for future use if necessary. The council does not hold responsibility for the maintenance of the standpipe or the cost of water used.

**[29] Gofynnwyd i'r clercc anfon llythyr i GSC yn dweud bod cyngor y dref yn derbyn cyfrifoldeb am gynnal a chadw a gwacáu'r biniau ar hyd y glannau.**

[29] The clerk was instructed to inform CCC that the town council would accept responsibility for the repair, replacement and emptying of the bins along the verge.

**[30] Roedd yr aelodau yn cytuno i'r coed tu allan i Lety Teifi gael eu torri.**

[30] The council was in agreement that the trees be removed from the forecourt of Llety Teifi.

**[31] Penderfynwyd bod y clercc yn ysgrifennu at Western Power gan ofyn iddynt archwilio'r polyn sydd yn pery rhwystr i yrwyr ar gyffordd Greenland Meadows/ Ffordd Aberystwyth.**

[31] It was decided that the council write to Western Power asking them to inspect the alleged obstruction caused to motorists by the lamp post at the junction.

**[35] Cadarnhawyd dyddiad cyfarfod y gyllideb: 19 Ionawr 2010 am 6.30 o'r gloch yn Swyddfa'r clercc. Penderfynwyd peidio gwahodd cyfieithydd i'r cyfarfod.**

[35] The date of the budget meeting was confirmed: 19 January 2010 at 6.30pm at the council office, Pendre. It was decided not to engage the services of a translator for the meeting.

**[30] Mae'r Cyng. Alan Wilson yn delio gyda gohebiaeth SWALEC ar hyn o bryd.**

[37] Cllr Alan Wilson was presently dealing with the SWALEC transaction.

**13. Adroddiadau'r is-bwyllgorau ac Adroddiad y Bachan Deche. Wedi derbyn cadarnhad mai'r Cyng. Melfydd George oedd wedi ei ethol yn gadeirydd yr is-bwyllgor, derbyniwyd cofnodion is-bwyllgor 2010 fel rhai cywir. Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis yn yr ys-bwyllgor. Roedd pawb yn gytûn.**

**Adroddiad y Bachan Deche: Man Chwarae – yn dilyn yr adroddiad a dderbyniwyd oddi wrth archwilydd ROSPA, awgrymwyd bod eisiau ailbeintio darn ucha'r Siglen. Roedd angen darnau i'r Ceffyl Sbring a hefyd byllt ar y Sglefren. Nid oedd angen gwaith ar y Rownd-abowt ar hyn o bryd.**

**Maes Sgrialu – Argymhellwyd y dylid lleoli'r arwydd yn agosach at y rampiau a bod y biniau i'w diogelu yn y ddaear. Mae angen rhywfaint o waith ar y llwybr concridd. Cynghorir y cyngor i gadw llygad ar wyneb y rampiau gan fod craciau ysgafn yn ymddangos arnynt.**

**Dywedodd y Cyng. Mair Morris bod amcangyfrif wedi ei dderbyn oddi wrth**

**‘Contract Sign Systems’ am yr amrywiol arwyddion oedd angen, sef dau i’r man chwarae, un i’r cwrt aml-bwrpas, ac un i’r maes sgrialu am £474+TAW. Bydd rhaid sicrhau arwyddion y man chwarae i’r glwyd ac i’r ffens, a bydd rhaid codi’r lleill ar bolion gan y cyngor.**

**Cynigiwyd gan y Cyng. Wynne Evans ac eiliwyd gan y Cyng. David Grace bod y cyngor yn mynd yn ei flaen gyda’r archeb a’r gwaith. Roedd pawb yn gytûn. Bydd angen trafod y pot blodyn, sydd i’w leoli yn y fainc tu allan i Rolands, yn is-bwyllgor Aberteifi yn ei Blodau.**

**Cynhelir yr is-bwyllgorau nesaf nos Fawrth, 15 Rhagfyr am 6.00yh yn Swyddfa’r Clerc, 36 Pendre.**

13. Sub-committee Reports and Handyperson’s Report.  
The minutes of the 2010 sub-committee were accepted following the confirmation that Cllr Melfydd George had been elected as chairman. This was proposed by Cllr Mark Cole and seconded by Cllr John Adams-Lewis at the sub-committee. All members were in agreement.

*Handyperson’s Report: Play Area* – Following the report received from the ROSPA inspector, it was recommended that the paintwork on the top bar of the flat swings be seen to. Nuts, bolts and hand and foot rests were required for the Spring Horse and the bolts of the Platform Slide needed attention. No work was required on the Roundabout at this time.

*Skateboard Park* – It was recommended that the new signs be sited closer to the ramps and the litter bins to be secured to the ground. Some repair was required on the concrete path. It was also recommended to monitor the minor cracking appearing on the surface of the ramps.

Cllr Mair Morris added that a quotation of £474.00+VAT had been received from Contract Sign Systems for the various signs required for the play area (2), the multi-purpose area and the skateboard park. The play area signs would be fitted onto the gate and the wire fence with the others mounted on posts; these to be self-fitting.

It was proposed by Cllr Wynne Evans and seconded by Cllr David Grace that the council proceed with the order and to complete the work. All members were in favour. The potted tree to be planted within the bench at Rolands to be discussed by the Cardigan in Bloom sub-committee.

The next sub-committees to be held on Tuesday, 15 December at 6.00pm at the Clerk’s Office, 36 Pendre.

14. **Materion Personél (mewn pwyllgor)**
14. Personnel Matters (In committee)
15. **Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**
15. Any Other Business at the Mayor’s discretion.

**Cynigiwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards ac eiliwyd gan y Cyng. David Grace bod materion 14 a materion ariannol eraill i’w trafod mewn pwyllgor. Roedd pawb yn gytûn.**

It was proposed by Cllr Llwyd Edwards and seconded by Cllr David Grace that items 14 and other financial matters be discussed in committee. All were in favour.

**Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.51yh.**

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.51pm.

Arwyddwyd/*Signed* ..... (Cadeirydd/*Chairperson*)

Dyddiad/*Date* .....